

Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 295 –15 Rhagfyr 2006
Canolfan Chapter, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2006.

1. Pwyllgor Cynnwys

Cadarnhawyd bod Rheon Tomos a Chris Llewelyn wedi cytuno i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Cynnwys.

2. Adolygiad Polisi Rhaglenni a Gweithgareddau 2006

Cytunwyd i'r swyddogion i gyflwyno manylion am gyrraedd targedau llynedd a drafft o'r adolygiad i'r Pwyllgor Cynnwys, mewn pryd i gyflwyno'r adolygiad i Ofcom ar 23 Ionawr 2007.

3. Datganiad Polisi Rhaglenni 2007

Adroddwyd ar brif bwyntiau'r datganiad drafft. Awgrymwyd rhai newidiadau sydd angen eu hadlewyrchu yn y datganiad. Angen i'r Pwyllgor Cynnwys hefyd ystyried y datganiad a'i anfon at Ofcom cyn 23/01/07.

4. Newidiadau i Amcanion a Chyfrifoldebau'r Pwyllgor Personel a Chydnabyddiaeth

Derbyniwyd a chymeradwywyd y newidiadau i'r Amcanion a Chyfrifoldebau a gyflwynwyd i'r Awdurdod.

5. Adroddiad y Cadeirydd

Esboniodd y Cadeirydd bod y broses o benodi Ysgirfennydd newydd yn mynd yn ei flaen drwy gwmni pen helwyr Odgers. Cytunwyd bod angen trefnu pecyn gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr i'r aelodau.

6. Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg

Adroddodd Rheon Tomos ar y cyfarfod a gynhaliwyd ynghynt y bore hwnnw, lle ystyriwyd 6 adroddiad gan Bentley Jennison. Cytunwyd hefyd bod angen trefnu Pwyllgor arall ym mis Chwefror er mwyn trafod cynllun gwaith 2007 ar gyfer materion risg.

7. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad a nodwyd y canlynol:

- Nodwyd y cyhoeddiad bod TAC a PACT yn uno. Prif Weithredwr PACT i gwrdd ag S4C ym mis Ionawr.

- Nodwyd bod S4C wedi cwrdd â'r Ysgrifennydd Gwladol, Peter Hain i fynegi pryderon y bydd rhai trosglwyddyddion, yn enwedig Wrecsam, yn cynnwys 3 plethiad yn hytrach na 6 yn dilyn newid i ddigidol.

8. Ail-Frandio

Cafwyd cyflwyniad ar sgrin o ail-frandio S4C a mynegwyd bodlonrwydd ynglyn â'r hyn a welwyd.

9. Cyflwynwyd y papurau canlynol:

- Adroddiad Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol